Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

# Pleidleisio hygyrch




Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Mae angen i'n lleisiau ni oll gael eu clywed.

Mae hynny'n dda i'n lles ni.



Mae cael ein lleisiau wedi'u clywed hefyd yn helpu ein cymunedau.


Mae syniadau gwahanol yn helpu i wneud pethau'n well i bawb.

Fe wnaethoch chi ofyn i Your Vote Matters am fwy o wybodaeth am bleidleisio a democratiaeth.




Dyma fwy o wybodaeth am bleidleisio a chymryd rhan yn y ffordd mae ein cymunedau'n gweithio.

Mae yna ddolenni i fideos a mwy o dudalennau Hawdd ei Deall.





Dylai pob gorsaf bleidleisio fod yn hygyrch. Gallwch ofyn am gymorth gan y staff yno.

Gallwch ofyn am bapur pleidleisio print bras.



Gallwch ddod â ffrind, neu eich staff cefnogaeth eich hun gyda chi i'ch helpu. Gallwch hefyd ddefnyddio darllenydd llais ar eich ffôn.



My Voting Passport

My Vote My Voice

**About me**

My name is:

I have a learning disability and/or autism and I need reasonable adjustments to support me to vote in the general election.

Below, please list anything that will help you to vote in a polling station:

*(e.g. no waiting in long queues; not going in the polling booth; staying with your support worker; any other disabilities)*


Mae rhai pobl yn defnyddio Pasbort Pleidleisio i egluro pa gymorth maen nhw ei angen wrth bleidleisio.

Cliciwch yma i ddysgu fwy am yr Pasbort Pleidleisio.

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

mencap

Cliciwch yma i wylio fideo amdan pelidleisio hygyrch.



Mae pob plaid wleidyddol yn cyhoeddi maniffesto ychydig wythnosau cyn etholiadau.

Adroddiad gwleidyddol arbennig ydi maniffesto.




Mae maniffesto'n egluro pa fath o bethau sy'n bwysig i'r blaid. Gallai hynny fod yn Iechyd, Addysg, Trafnidiaeth, neu rywbeth arall.



Mae'n dweud beth maen nhw'n addo ei wneud os ydyn nhw'n cael eu hethol. Gall maniffestos ein helpu ni i benderfynu pa blaid y byddwn yn pleidleisio drosti.




Bydd pleidiau gwleidyddol fel arfer yn cyhoeddi maniffestos Hawdd ei Deall i helpu etholwyr ddeall yr hyn maen nhw'n addo ei wneud os byddan nhw'n ennill.




Mae rhai pleidiau hefyd yn cynhyrchu maniffestos mewn Braille, print bras ac Iaith Arwyddion Prydain. Cysylltwch â phob plaid i ofyn am gopïau.

Cliciwch yma i ddod o hyd i'r maniffestos Hawdd eu Deall ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019.

Cliciwch yma i ddod o hyd i wybodaeth Hawdd ei Ddeall am y pleidiau gwleidyddol llai.





## Print bras

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn print bras arnoch chi.**

**Ebost:**

**comms@innovate-trust.org.uk**



## Braille

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn Braille arnoch chi.**

**Ebost:**


**comms@innovate-trust.org.uk**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llyfryn hwn neu os hoffech siarad gyda ni am gynnwys y llyfryn hwn:**



**Ffoniwch ni ar:**

**02920 382 151**




**Neu ewch i'n gwefan:**

**innovate-trust.org.uk**

Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

Mae Innovate Trust Limited wedi'i gofrestru yng Nghymru. Rhif cofrestru'r cwmni 02493904
Mae Innovate Trust Limited yn elusen gofrestredig. Rhif y Comisiwn Elusennau 1010541
Darparwr Cymorth Achrededig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nifer ASP03-054